

2014 Rhif 1326 (Cy. 136)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A4042
(Ffordd Liniaru Malpas,
Casnewydd) (Cyfyngiadau Traffig
Dros Dro) 2014**

Gwnaed *13 Mai 2014*

Yn dod i rym *14 Mai 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Mai 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Ffordd Liniaru Malpas, Casnewydd) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2014.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y cyfyngiadau” (“*restriction period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:00 o'r gloch ar 14 Mai 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yn Ninas Casnewydd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cyfyngiadau, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cyfyngiadau, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cyfyngiadau, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

Cymhwyso

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdog Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 13 Mai

R Morgan

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder o 40 mya Dros Dro

Y darn hwnnw o gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol cylchfan Croes-y-mwyalch am bellter o 600 o fetrau i gyfeiriad y de-ddwyrain.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder o 30 mya Dros Dro

Y darn hwnnw o gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 600 o fetrau i'r de o'i chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol cylchfan Croes-y-mwyalch am bellter o 230 o fetrau i gyfeiriad y de-ddwyrain.

ATODLEN 3

Terfyn Cyflymder o 20 mya Dros Dro

Y darn hwnnw o gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 830 o fetrau i'r de o'i chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol cylchfan Croes-y-mwyalch am bellter o 450 o fetrau i gyfeiriad y de-ddwyrain.